OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1041

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

## RHAN 5

### Amrywiol

**Ffioedd**

**23.** Mae Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer ffioedd.

**Dirymiadau**

**24.**—(1) Mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

(a) Rheoliadau 2010;

(b) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2010(**1**);

(c) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010(**2**); a

(d) Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) (Diwygio) 2016(**3**).

(2) Mae paragraff 142 o Atodlen 2 i Orchymyn yr Asiantaeth Genedlaethol ar gyfer Triniaethau (Dileu) a Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol a Darpariaethau Arbed) 2013(**4**) wedi ei ddirymu.

**Diwygiad canlyniadol**

**25.** Yn rheoliad 21(7)(b) o Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2010(**5**), yn lle "regulation 15 or 16 of the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2010" rhodder "regulation 18 of the Private Water Supplies (Wales) Regulations 2017".

**Darpariaethau trosiannol**

**26.**—(1) Pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) mae awdurdodiad a roddir o dan reoliad 17(2) o Reoliadau 2010 sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i'w gymryd i fod yn awdurdodiad a roddir o dan reoliad 19(2) o'r Rheoliadau hyn;

(b) mae ail awdurdodiad a roddir o dan reoliad 17(9) o Reoliadau 2010 sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i'w gymryd i fod yn ail awdurdodiad a roddir o dan reoliad 19(9) o'r Rheoliadau hyn;

(**1**) O.S. 2010/147 (Cy. 22).
(**2**) O.S. 2010/1384 (Cy. 123).
(**3**) O.S. 2016/411 (Cy. 129).
(**4**) O.S. 2013/235.
(**5**) O.S. 2010/994 (Cy. 99); fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/14 (Cy. 7), O.S. 2013/235, O.S. 2013/1387, O.S. 2016/410 (Cy. 128) ac O.S. 2017/506.

(c) mae hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 18 o Reoliadau 2010 sydd mewn grym yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ("hysbysiad presennol") i'w gymryd i fod yn hysbysiad a gyflwynir o dan reoliad 20 o'r Rheoliadau hyn.

(2) Caniateir gwneud apêl o dan reoliad 21(1) o'r Rheoliadau hyn yn erbyn hysbysiad presennol os nad yw'r cyfnod o amser ar gyfer gwneud apêl o dan reoliad 19(1) o Reoliadau 2010 wedi dod i ben ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym.

(3) O ran awdurdod lleol sydd wedi—

(a) lleihau amlder samplu ar gyfer paramedr o dan baragraff 2(2) yn Rhan 1 o Atodlen 2 (monitro) i Reoliadau 2010, neu

(b) eithrio paramedr o waith monitro archwilio o dan baragraff 3(3) yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau 2010,

rhaid iddo, pan ddaw'r Rheoliadau hyn i rym, ddod ag unrhyw leihad neu eithriad o'r fath i ben, ac yn lle hynny rhaid iddo ddechrau monitro yn unol â'r ddarpariaeth a wneir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) Caiff awdurdod lleol ddibynnu ar unrhyw ddata a gesglir yn ystod y cyfnod o 36 mis sy'n dod i ben â'r diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym i gyfiawnhau unrhyw amrywiad o ran monitro o dan Ran 4 o Atodlen 2.

(5) Mae Tabl 2 (nodweddion perfformiad rhagnodedig ar gyfer dulliau dadansoddi) yn Atodlen 4 yn parhau mewn grym hyd 23:59 ar 31 Rhagfyr 2019, a chaiff ei ddirymu at bob diben ar ôl hynny.